## TWRISTIAETH

Yn ddiweddar comisiynodd yr Antur 'Adroddiad ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle' er mwyn cael darlun o sefyllfa bresennol y diwydiant yn yr ardal. Mae copiau o'r Adroddiad ar gael am £5 o Ganolfan Dechnoleg Antur Nantlle neu gallwch lawr lwytho copi oddi ar dudalen Antur Nantlle ar wefan www.nantlle.com

Yr ydym wedi sefydlu Grŵp Twristiaeth er mwyn trafod, datblygu a hyrwyddo prosiectau twristiaeth fydd yn hybu bywyd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn Nyffryn Nantlle.
Os hoffech fod yn aelod o'r Grŵp Twristiaeth danfonwch y ffurflen sydd ar y dudalen nesaf atom a byddwn yn cysylltu'n ol â chi.



Alun Ffred Jones AC yn dilyn lansio'r Adroddiad gyda Elwyn Jones Griffith, Cadeirydd y Grŵp Twristiaeth

## CAMAU CUDD DYFFRYN NANTLLE



Mae Antur Nantlle wedi bod yn cydweithio gyda Phrifysgol Cymru Bangor a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gynllun Traed Trysor Ifanc. Bwriad y cynllun yw annog plant a'u teuluoedd i gerdded mwy er mwyn hybu iechyd a chael hwyl wrth wneud. Mae llyfryn Camau Cudd Dyffryn Nantlle ar gael am ddim yng Nghanolfan Dechnoleg Antur Nantlle. Mae ynddo stori am gymeriad newydd sbon o Ddyffryn Nantlle—Anna Sanna Hir ynghyd a phosau, mapiau o deithiau lleol, gwobrau i'w hennill a llawer mwy.

## ASTUDIAETH I AILGYLCHU CYFRIFIADURON
### Cynllun Cymunedau@ei gilydd

Mae hi'n ddyddiau ailgylchu pob dim yn y byd sydd ohoni ac mae cael gwared ar y niferoedd mawr o hen gyfrifiaduron sydd o gwmpas yn achosi problemau. Mae'r Antur wedi derbyn cyllid i wneud gwaith ymchwil i ailgylchu cyfrifiaduron a byddwn yn cysylltu hefo trigolion ardal Talysarn a Nantlle i helpu hefo'r gwaith.

Mae Antur Nantlle yn awyddus i glywed gan bobl Dyffryn Nantlle. Cysylltwch a ni drwy lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon yn ol i swyddfa'r Antur yn y Ganolfan Dechnoleg.

Ticiwch y blychau gyferbyn a'ch maes o ddiddordeb

- ☐ Busnes a Datblygu'r Economi leol
- ☐ Datblygu'r Diwydiant Twristiaeth
- ☐ Cynllun llwybrau lleol
- ☐ Ailgylchu cyfrifiaduron

Eich sylwadau:

Enw ……………………………………………………….
Cyfeiriad ………………………………………………...
…………………………………………………………….


**Antur Nantlle Cyf**

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr
Penygroes LL54 6LR
Ffôn: 01286 882688
Ffacs: 01286 881375
e-bost: antur@anturnantlle.com





# Antur Nantlle Cyf

**Canolfan Dechnoleg**
**Antur Nantlle**
**20 Heol y Dŵr, Penygroes**
**Gwynedd LL54 6LR**
**01286 882688**




Mae Swyddfa Antur Nantlle wedi ei lleoli oddi mewn i'r Ganolfan Dechnoleg ac mae ar agor bob dydd rhwng 9am—5pm. Galwch heibio'r Ganolfan am sgwrs hefo'r staff ac am fwy o wybodaeth am waith yr Antur.

Mae Llyfrgell Penygroes yn rhan o'r Ganolfan a hefyd Swyddfa Adfywio Cyngor Gwynedd a Swyddfa Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle

**Siop 22**
**10 Heol y Dŵr, Penygroes**
**Gwynedd LL54 6LR**

Mae un swyddfa fawr / siop i'w gosod ar y llawr isaf a thair swyddfa ar y llawr cyntaf.



**Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle**
**Ffordd Llanllyfni, Penygroes**
**Gwynedd LL54 6DB**



Agorwyd y Ganolfan yn 1991 ac mae saith uned, tair swyddfa a iard ar y safle.

**Y Barics, Nantlle**

**Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD**



Hen Farics oedd yn perthyn i Chwarel Pen-yr-orsedd pan oedd y chwareli llechi yn ei bri oedd y rhain. Adnewyddwyd yn bump uned crefft a busnes.

Mae Grŵp Llys Llywelyn yn gweithio'n galed i gynnal Canolfan Gymunedol i drigolion Nantlle yn Uned 2 Y Barics.




**Tŷ Iorwerth**
**39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd**




Mae saith swyddfa uwchben y banc yn Nhŷ Iorwerth gyda mynedfa i'r swyddfeydd o'r maes parcio yn y cefn.
Mae banc yr HSBC yn gweithredu ar y llawr isaf.

**Siop / Gweithdy**
**35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes,**
**Gwynedd LL54 6NG**



Oriel Llun-Mewn-Ffram
Mae gweithdy yng nghefn y siop i'r tenant drin neu gynhyrchu nwyddau i'w gwerthu o'r siop yn Stryd yr Wyddfa.